

# Paratoi ar gyfer eich **cyfweiliad**



## **Paratoi ar gyfer eich cyfweiliad**

Os yw'ch cais yn llwyddiannus cewch eich gwahodd i'r cam nesaf o'r broses recriwtio. Gan ddibynnu ar y swydd rydych yn gwneud cais amdani, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn un neu ragor o'r asesiadau a ganlyn. Rhowch wybod i ni ymlaen llaw os oes angen i ni addasu unrhyw beth neu os oes gennych unrhyw ofynion arbennig.

## **Cyfweiliadau**

Cewch eich cyfweild gan banel a fydd yn cynnwys o leiaf dau reolwr ac, fel arfer, cyfweiliad i benderfynu ar eich gallu fydd hwn. Bydd angen i chi ateb cwestiynau a rhoi enghreifftiau o'r modd rydych wedi defnyddio sgil neu allu arbennig mewn sefyllfaoedd penodol.

Gallwch baratoi drwy feddwl am enghreifftiau pan lwyddoch chi i ddangos bod gennych y cymwyseddau allweddol sydd eu hangen ar gyfer y swydd. I wneud hynny, defnyddiwch y model a ganlyn.

**S**efyllfa – disgrifio'r sefyllfa

**T**asg – beth oedd angen i chi ei wneud – pwy oedd yn rhan o'r sefyllfa

**C**ampau – beth wnaethoch chi

**C**anlyniad – disgrifio'r canlyniad, beth ddysgoch chi

Dylech seilio'ch enghreifftiau ar eich swydd(i) presennol neu flaenorol (yn ddelfrydol, o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf). Gallwch hefyd ddefnyddio enghreifftiau o unrhyw waith gwirfoddol, profiad gwaith di-dâl, ysgol/coleg a diddordebau.

Cofiwch feddwl am unrhyw gwestiynau yr hoffech eu gofyn i'r panel gan mai dyma'ch cyfle i benderfynu ai hon yw'r swydd iawn a'r sefydliad iawn i chi.

## **Ymarferion cysylltiedig â'r gwaith neu brofion gallu**

Cynllunnir yr ymarferion hyn i efelychu sefyllfa waith go iawn. Er enghraifft, efallai y gofynnir i chi weithio drwy bentwr o waith, neu ddadansoddi gwybodaeth ar daenlen. Mae profion gallu'n mesur eich gallu presennol ac unrhyw botensial i ddatblygu sgiliau amrywiol fel rhesymu ar lafar, rhifedd, sgiliau clericio.

## **Cyflwyniadau**

Drwy gyflwyniadau, gallwn asesu'ch gwybodaeth, eich gallu i gael hyd i ffeithiau, eich sgiliau cyflwyno a'ch gallu i ddylanwadu ar eraill.

Os yw'n berthnasol, cewch eich testun cyn y cyfweiliad a bydd disgwyl i chi roi cyflwyniad i'r panel cyfweild.

## **Holiaduron personoliaeth**

Os gofynnir i chi lenwi holiadur personoliaeth, byddwn yn gofyn i chi wneud hynny ymlaen llaw ar-lein fel arfer. Mae'r rhain yn ystyried ymddygiad yn y gwaith felly does dim atebion cywir nac anghywir. Fel arfer, byddwch yn ystyried agweddau ar eich proffil yn y cyfweiliad ac yn defnyddio'r wybodaeth i'n helpu ni i benderfynu a ydych yn addas ar gyfer y swydd. Ar ddiwedd y broses recriwtio, cewch adborth ar eich proffil.

## **Canolfannau asesu**

Mae canolfan asesu'n cynnwys amrywiol weithgareddau a all gynnwys cyfweiliad panel, sesiwn chwarae rôl ac ymarferion grŵp.

Bydd manylion llawn am ffurf y cyfweiliad a'r hyn y bydd angen i chi ddod hefo chi, o bosibl, yn cael eu cynnwys yn eich gwahoddiad i ddod i'r cyfweiliad.